# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr Y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Llun, 11 Mehefin 2018 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Is-Gadeirydd), Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Brian Jones, Huw Jones, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Arwel Roberts, Peter Scott (Cadeirydd), Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Cheryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Cyfreithiol, Gwasanaethau Democrataidd ac AD (GW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Jeanette Chamberlain-Jones, Peter Arnold Evans, Alan James, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Anton Sampson, Glenn Swingler, Graham Timms, Joe Welch, David Williams a/ac Eryl Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad.

## 3 DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL - PAPUR GWYRDD

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu'r Cyngor am gynnwys y Papur Gwyrdd Llywodraeth Leol a derbyn cymeradwyaeth i ymateb y Cyngor iddo.

Cyflwynir ymatebion i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 12 Mehefin 2018.

Roedd y papur y nawfed dogfen ymgynghori neu gyhoeddiad i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno ar y testun Diwygio Llywodraeth Leol ers ac yn cynnwys Adroddiad Comisiwn Williams ym mis Ionawr 2014.

Cynhaliwyd gweithdy i'r holl Aelodau ar 24 Mai 2018 i gael barn aelodaeth ehangach y Cyngor, Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac yn dilyn hynny paratowyd ymateb drafft.

Roedd pob Arweinydd Grŵp yn mynegi pryderon ynglŷn ag ad-drefnu ac roeddent yn cytuno'n llwyr gydag ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyrdd.

Roeddent i gyd yn nodi bod Sir Ddinbych yn darparu gwasanaethau o safon uchel i drigolion a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Roedd y Cyngor hefyd yn cymryd rhan ymarferol mewn gwaith ar y cyd is-ranbarthol presennol a gwaith ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu. Roedd rhai trefniadau ar y cyd e.e. GwE yn darparu gwasanaethau ardderchog.

Nodwyd nad oedd manylion costau wedi eu cynnwys yn y Papur Gwyrdd a nes bydd y manylion hynny'n cael eu cyflwyno ni fyddai uno yn cael ei ystyried.

Nodir na holwyd unrhyw gwestiwn, ac na geisiwyd barn ynghylch yr achos dros newid. Tybir felly fod y Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r polisi o uno ac yn gofyn am farn ynghylch y broses o gyflawni hyn yn unig. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i lunio ar y sail hwnnw ond roedd yn cynnwys cyflwyniad yn nodi barn y Cyngor ar yr achos dros newid.

Cynigiodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr argymhelliad, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor.

Cafwyd pleidlais fel a ganlyn:

(i) O blaid – 26
(ii) Ymatal - 1
(iii) Yn erbyn - 1

Felly:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn ystyried cynnwys y Papur sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac yn cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad drafft, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm.**